AC-01-99(min)

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Medi 1999 |
| **Amser:** | 2pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2 |
| **Presennol:** | **Aelodau** |

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Alison Halford | Delyn |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Frank Grogan | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Phil Gray | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad Cenedlaethol |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Peter Black.

**Eitem 1ar yr Agenda: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bob Aelod, Archwilydd Cyffredinol Cymru a swyddogion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’r Cynulliad Cenedlaethol i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio. Croesawodd hefyd yr Ysgrifennydd Cyllid, Mrs Edwina Hart, a gafodd ei gwahodd i annerch ar ddechrau’r cyfarfod, er nad yw’n Aelod o’r Pwyllgor.

1.2 Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor Archwilio fel cë n gwarchod ariannol y cyhoedd, gyda’r disgwyl arnynt sicrhau’r safonau uchaf o ran cywirdeb, gwerth am arian a gwyliadwriaeth ariannol ar ran y bobl a’r Cynulliad. Roedd Grë p Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol wedi rhagweld Pwyllgor Archwilio pwerus, a oedd yn annibynnol o’r Pwyllgor Gwaith ac yn cipio’r blaen wrth archwilio adroddiadau ariannol a cheisio gwerth am arian oddi wrth gyrff sy’n atebol i’r Cynulliad. Roedd yn nwylo’r Pwyllgor i wneud defnydd llawn o brofiad ac arbenigedd Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol er budd holl bobl Cymru.

**Anerchiad gan yr Ysgrifennydd Cyllid**

1.3 Diolchodd Mrs Hart i’r Aelodau am y cyfle i gynnig ei chefnogaeth a’i dymuniadau gorau a’r rhai o du ei chydweithwyr yn y Cabinet. Fel yr Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am effeithlonrwydd a gwerth am arian, roedd yn ystyried gwaith y Pwyllgor yn rhan allweddol o weithgaredd y Cynulliad. Cydnabu annibyniaeth y Pwyllgor ac roedd yn gwerthfawrogi y byddai angen i’r Pwyllgor ar adegau feirniadu gweithredoedd y pwyllgor gwaith. Roedd yn gobeithio y gallai’r Pwyllgor chwarae r^ l amlwg yn ymgyrch y Cynulliad i fod yn effeithlon a darbodus ac y byddai eu trafodaethau yn cyfrannu’n sylweddol at gael y gwerth gorau posibl o arian y trethdalwr.

1.4 Roedd yr Ysgrifennydd Cyllid o’r farn bod y rhaglen a gynigir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o astudiaethau gwerth am arian yn darparu golwg cyffredinol da dros swyddogaethau’r Cynulliad ac roedd yn falch o fachu ar y cyfle cyhoeddus hwn i’w sicrhau y byddai swyddogion y Cynulliad yn cydweithredu’n llawn. Ei gobaith oedd y byddai’r Pwyllgor yn llym pan oedd angen iddo fod yn llym

– ble byddai’n dod o hyd i enghreifftiau lle roedd safonau yn disgyn yn is na’r hyn yr oedd gan bobl Cymru yr hawl i’w disgwyl oddi wrth y gweision cyhoeddus sy’n gweithredu ar eu rhan – ond y gallai’r Pwyllgor edrych am ffyrdd adeiladol o arbed arian a’i fuddsoddi yn y gwasanaethau rheng flaen.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Amcangyfrif Drafft o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Papurau: AC 01-99(p.1); AC 01-99(p.2); AC 01-99(p.3) ac AC 01-99 (p.4)**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papurau a gynhyrchwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Cynhwysodd y rhain amcangyfrif drafft o incwm a threuliau ei swyddfa am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2001 (papur 2); a’i raglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2000-2001 a’r blynyddoedd dilynol (papur 3). Roedd y Ddeddf Llywodraeth yng Nghymru yn gofyn bod yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried barn y Pwyllgor wrth benderfynu ei raglen. Roedd yn rhaid i’r Pwyllgor benderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau yr oedd eu hangen arno ar gyfer ei raglen waith ei hun ac chynghori’r Cynulliad ynglí n > ’r gofynion ariannol cysylltiedig.

2.2 Yna estynnodd wahoddiad i’r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno ei bapurau. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol er mai yn ei ddwylo ef oedd y penderfyniad terfynol ar ba adroddiadau i ymgymryd > hwy ei fod am ystyried pryderon a blaenoriaethau’r Pwyllgor cyn cynhyrchu rhaglen derfynol. Roedd y rhaglen ddrafft yn ymgorffori ei ddealltwriaeth o flaenoriaethau’r Pwyllgor ac yn nodi pethau yn ^ l maes e.e. iechyd, yr amgylchedd; ac yn ^ l thema e.e. caffael adnoddau neu ail-leoli a chael gwared ar adnoddau. Tynnodd wahaniaeth rhwng dau fath o adroddiad:

- y rhai oedd yn edrych ar raglen benodol o wariant neu faes gweithgaredd ac yn gwneud argymhellion ar sut i gyflawni’r un amcanion gyda mwy o effeithiolrwydd effeithlonrwydd economi, gan arwain at arbedion ariannol; a

- y rhai oedd yn archwilio gweithrediadau sefydliadau penodol ac yn amlygu materion gwedduster, er enghraifft. Yn gyffredinol roedd y rhain yn cynhyrchu arbedion cost llai ond yn tynnu sylw at feysydd yr oedd yn bwysig iawn eu cael yn y cylch cyhoeddus.

2.3 Yn y drafodaeth, cododd yr Aelodau sawl pwynt o egwyddor gyda’r Archwilydd Cyffredinol am gwmpas potensial ei Archwiliadau Gwerth am Arian:

- a fyddai gan y Cynulliad r^ l wrth ymchwilio materion disgyblu’r heddlu;
- lefel y manylion y gallai’r Cynulliad ei disgwyl mewn unrhyw adroddiadau ar y ffordd roedd yn ariannu awdurdodau lleol;
- a allai Archwilydd Cyffredinol Cymru edrych yn fanwl ar y gwariant ar broject LG;
- a allai’r adroddiad arfaethedig ar adeiladau a threfniadau’r Cynulliad gynnwys ymchwiliad i’r cynlluniau a gyfer adeilad newydd y Cynulliad; a
- graddau pwerau’r Archwilydd Cyffredinol i archwilio effaith y fformwla ar gyfer asesiadau

gwario safonol awdurdodau lleol.

2.4 Mewn ymateb i'r ddau bwynt cyntaf, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd ganddo'r pwerau cyfreithiol i ymchwilio i achosion penodol. Serch hynny, gallai gynhyrchu adroddiad ar y canfyddiadau cyffredinol. Ar y trydydd pwynt, cadarnhaodd y gallai archwilio'r project hwn. Ar y pedwerydd pwynt, dywedodd y byddai'n gwneud gweithredu'r penderfyniadau polisi sy'n effeithio ar drefniadau llety'r Cynulliad yn ganolbwynt unrhyw archwiliad. Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd at Ddeddf Llywodraeth i Gymru sy'n ei atal rhag gwneud sylwadau ar faterion o bolisi. Ar y pwynt olaf, esboniodd fod ystyriaethau tebyg yn gymwys; gallai edrych ar y cyfrifiadau a ddaeth o asesiadau gwario safonol, er enghraifft, ond ni allai gwestiynu'r fformwla ei hun am fod hyn yn fater o bolisi.

2.5 Mewn ymateb i wahoddiad oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol, gofynnodd yr Aelodau iddo ystyried cynnwys yr eitemau canlynol yn ei raglen o archwiliadau gwerth am arian:

- effeithiolrwydd Awdurdod Datblygu Cymru wrth annog datblygiad diwylliant brodorol
- effaith y gwario ar broject LG ar y cyfanswm gwariant yng Nghymru
- yr adroddiad ar drefniadau llety'r Cynulliad i gynnwys ystyried adeilad newydd y Cynulliad
- ystyried grantiau adnewyddu tai yng ynghyd-destun yr adroddiad arfaethedig ar ddigartrefedd
- archwilio cyffuriau a ragnodir gan yr NHS na chymeradwyir gan y Cyffurlyfr
- y goblygiadau ariannol i'r Cynulliad o orfod ymgymryd > 'r cyfrifoldeb ariannol am ansawdd y dë r ym Mae Caerdydd
- yr effaith ariannol ar ofal meddygol preifat (ac eithrio cartrefi nyrsio) ar yr NHS
- rheoli gwastraff yng nghyd-destun datblygiad cynaladwy a'r rhaglen Gwerth Gorau
- ailgyflunio'r NHS ac ymddiriedolaethau'r NHS

2.6 Diolchodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Aelodau am eu hawgrymiadau adeiladol a dywedodd y byddai'n eu hystyried wrth derfynoli ei raglen waith gwerth am arian ar gyfer 2000-2001. Dywedodd hefyd y gellid ymgorffori rhai o'r awgrymiadau hyn mewn gwaith yr oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol eisoes yn ei wneud. Byddai'n ystyried y rhain ac awgrymiadau eraill wrth lunio rhaglen ddiwygiedig. Hefyd gwnaeth y pwynt y gallai cynnwys pynciau newydd gael effaith ar amseru darnau eraill o waith sydd wedi'u cynnwys yn ei raglen arfaethedig. Byddai'n cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig i'r Pwyllgor yn y man.

2.7 Canolbwyntiodd y drafodaeth wedyn ar Bapur 2 ac incwm a threuliau'r Archwilydd Cyffredinol. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod "gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol eraill" yn cynnwys briffio ar gyfer y Pwyllgor, cymorth gyda chwestiynau i dystion a chynhyrchu adroddiadau'r Pwyllgor, delio > gohebiaeth y Pwyllgor, costau cyfieithu a ffioedd ar gyfer Archwilio swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ei hun.

2.8 Cafwyd ystyriaeth eang ei chwmpas o gwmpas a dyfnder yr adroddiadau a oedd yn debyg o ddod i'r fei o dan bob un o'r tri opsiwn arfaethedig ar gyfer gwariant ar archwiliadau gwerth am arian. Ar ^ l ychydig o drafodaeth, cafwyd cytundeb ar fabwysiadu Opsiwn 3 sy'n cynnwys darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol wario £1,000,000 ar archwiliadau gwerth am arian o fewn cyfanswm gwariant o £2,175,000. Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru nawr yn cyflwyno ei

amcangyfrif yn ffurfiol i’r Pwyllgor fel y gallai gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad.

2.9 Cytunodd yr Aelodau mai’r opsiwn hwn fyddai’n sicrhau’r cwmpas a dyfnder gweithgarwch ehangaf. Wrth ddewis yr opsiwn uchaf, teimlai’r Aelodau ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn arddangos eu bod yn gweld y gwariant hwn fel buddsoddiad am y tymor hwy a gofynnwyd am sicrwydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru bod gan yr opsiwn drutaf y potensial i greu arbedion mwy. Roeddent am i raglen archwiliadau gwerth am arian Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnwys amcangyfrif o’r arbedion cost tebygol y gellid disgwyl eu cael gan bob archwiliad, er y cydnabuwyd y gallai’r cyfleoedd ar gyfer arbedion cost a nodir yn ystod archwiliadau gymryd dwy neu dair blynedd i ymwireddu yn arbedion go iawn.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Gweithredu’r Pwyllgor Archwilio**

**Papurau: AC 01-99(p.5) ac AC 01-99(p.6)**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Bapur 5 a oedd yn nodi’r cynigion ar gyfer gweithredu’r Pwyllgor a phynciau addas i’w hystyried yn y cyfarfodydd cynnar; a Phapur 6 a oedd yn gwahodd y Pwyllgor i nodi gweithdrefnau a gynigir er mwyn delio > gohebiaeth sy’n ymwneud ag archwilio. Roedd yn hanfodol bod ymholiadau’r Pwyllgor mor agored > phosibl a byddai cynigion yn y papurau hyn yn helpu i gyflawni’r nod hwnnw.

3.2 Cytunodd yr Aelodau i dderbyn gwahoddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn San Steffan i’r Aelodau gyfarfod > ’r Pwyllgor ar 29 Tachwedd ac arsylwi sesiwn dystiolaeth. Mynegodd y Cadeirydd ddymuniad bod cynifer o’r Aelodau > phosibl yn bresennol a gofynnodd i’r Ysgrifenyddiaeth drefnu’r manylion teithio. Derbyniwyd ei chynnig y dylai’r Aelodau deithio ar docyn dosbarth safonol.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i nodi’r ddau bapur.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Archwilio Awdurdodau Lleol a Chyrff a Noddir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

**Papur: AC 01-99(p.7)**

4.1 Mewn un o sesiynau briffio’r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, roedd yr Aelodau wedi gofyn am eglurhad o’r graddau y gallai’r Pwyllgor archwilio gwaith awdurdodau lleol. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi papur i nodi’r sefyllfa gyfreithiol. Roedd y papur hefyd yn cynnwys cynnig a fyddai’n galluogi’r Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno gerbron y Cynulliad grynodebau a baratowyd gan y Comisiwn Archwilio o’i waith. Byddai hyn yn galluogi’r Pwyllgor i gymryd tystiolaeth gan y Comisiwn a gwneud argymhellion iddo ac i awdurdodau lleol ar gyflawni rheoleidd-dra, gwedduster a gwerth am arian. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch gyda’r canfyddiadau yn y papur hwn. Ar ^ l trafodaeth fer derbyniwyd y papur gan y Pwyllgor.

4.2 Gorffennodd y cyfarfod am 4.15pm.